

Dod i'nabod aelod o GLWB GWAWR

IONA GARDNER

Iona Gardner oedd sylfaenydd Clwb Gwawr Cywion Cleddau ac mae'n aelod ffyddlon a gweithgar o hyd. Therapydd Lleferydd ac Iaith yw hi wrth ei gwaith bob dydd. Mae'n byw yn Hwlfordd, Sir Benfro; mae'n briod ac yn fam i ddau o blant. ANGHARAD GWILLIAM, Swyddog Hyrwyddo Clybiau Gwawr Penfro, fu'n ei holi ar ein rhan:

Lle cefaist ti dy eni?

Cefais fy magu yn Nhregaron ond bellach rwy'n byw ger Hwlfordd yn Sir Benfro.

Beth wyt ti'n ei hoffi am fyw yma?

Rwy'n hoffi byw ger y môr ac yn dal i ddarganfod llefydd prydfferth yn yr ardal.

Am beth rwyf ti'n teimlo'n gryf?

Mae'r amgylchedd yn bwysig i mi.

Beth yw dy gas beth?

Unrhyw fwyd sydd ag almon ynddo. Dwi'n casáu marsipán ac Amaretto.

Pa un yw dy hoff wlad dramor?

Bues i yn gweithio yn Seland Newydd



Iona Gardner

llosgfynydd a mynd yn uwch na'r cymylau. Bues i'n cerdded ar rewlif ac es i mewn i ogof wlyb i weld magïod (*glow-worms*) oedd yn gorchuddio'r nenfwd. At hyn, cefais y fraint o ddod i'nabod pobol Seland Newydd trwy weithio gyda nhw a dysgu am ddiwylliant y Maori. Dysgais ychydig o'r iaith. Roeddent wedi creu unedau ac ysgolion i hybu eu hiaith gan ddefnyddio dulliau sy'n cael eu hyrwyddo yma yng Nghymru i hybu'r iaith Gymraeg.

Sut gallwn ni annog mwy o bobl i siarad Cymraeg?

Mae angen i bobl weld fod y diwylliant Cymraeg yn ddiddorol ac wedyn byddant eisiau siarad yr iaith. Dwi'n ddigon hen i gofio teledu cyn dechrau sianel S4C a

Hinterland yn dangos byd lle mae pobl yn siarad dwy iaith fel rhan o'u bywydau bob dydd ac mae hyn yn adlewyrchu profiad mwyafrif y Cymry.

Beth yw dy hoff fwyd?

Dwi'n hoff iawn o flasau amrywiaeth o fwydydd. Dwi'n hoffi bwyd Sbaenaidd ac Eidalaidd ond hefyd *sushi* a chyrri Thai.

Pa noson oedd yr un orau a gawsoch chi gyda Chlwb Gwawr Cywion Cleddau?

Mi wnes i fwynhau gwranddo ar hanes taith dwy athrawes o'r ysgol leol, Heather Jenkins a Jane Davies, i Nepal.

Pa raglen deledu wyt ti'n ei mwynhau fwyaf?

Strictly Come Dancing.

Beth yw dy hoff ddull o wneud ymarfer corff?

Yoga, ac ar y foment y dosbarth *Strictly Fit*.

Pa un yw dy hoff le di yng Nghymru?

Un o fy hoff lefydd yw capel bach Santes Non yn Nhyddewi. Mae'r olygfa dros arfordir Sir Benfro mor bert a phan wnes i ymweld y tro diwethaf roedd gwenoliaid yn nythu yn y capel ac roedd y drws ar agor i adael iddynt hedfan i mewn ac allan.

ATEBION POSAU RHIF 198

POS HELP LLAW

Tuag i lawr ac i'r dde: 1. carol 2. lol 3. tiwn 4. di-droi'n 5. brain 6. Onn 7. tad 8. lloches 10. Paul 11. encil 14. adnod 15. oen 17. onid 18. gwresog 19. Paphos 22. caseg 23. y gaer 24. ail 25. o ble 26. pop 27. yna

Tuag i fyny ac i'r dde: 7. Tal 9. odro 10. parot 11. enllib 12. Eoin 13. Nadolig 16. don 20. losin 21. oni 22. cwpla 26. para 28. JOSEPHINE COCHRANE 29. peso 30. gosod 31. plygain 32. enaid 33. ael

POS AR DROED

1. Prifysgol 2. plastrwyr 3. Awstralia 4. Sarn Helen 5. milltiroedd 6. gwesteion 7. Treffynnon 8. briwsioni 9. ciwcymber 10. llwyfannau 11. gwreiddiol 12. gwinwydden

ATEBION: plasteri cyrn, farnis ewinedd, stiletos main.



Iona yn mwynhau cwmni rhai o aelodau Clwb Gwawr Cywion Cleddau yn y sinema.

am dros flwyddyn. Roedd yn brofiad bythgofiadwy. Mae'n wlad sydd yn llawn o bethau anhygoel. Mi wnes i ddringo

hoffwn i weld mwy o bwyslais ar sut y gall pawb wyllo rhaglenni ar S4C, trwy is-deitlau. Mae rhaglen fel *Y Gwyll* /